# ROBERT EVERETT

Hanes un o arwyr angof Cymru
gan John Davies



Ar fore gaeafol o eira - hynny yw, Ebrill 17eg - fe ddadorchuddiwyd llechen ar fur Capel Lôn Swan i goffáu Robert Everett a fu'n weinidog yno rhwng 1815 a 1823. Nid yw'r gŵr hynod hwn wedi derbyn ei lawn haeddiant yn lleol nac yn genedlaethol ac, os nad ydych yn ymwybodol o'i hanes, fe gyhoeddwyd erthygl amdano yn rhifyn Gorffennaf o'r *Bigwn* ym 2004. Fe ysgrifennwyd yr erthygl yn sgîl cyfres deledu Dr. Jerry Hunter ar S4C *"Cymry Rhyfel Cartref America"*. Yn fuan wedyn fe gyhoeddwyd y gyfrol *"Llwch Cenhedloedd"* gan Jerry Hunter yn adrodd hanes y Cymry a Rhyfel Cartref America. Fe enillodd wobr Llyfr y Flwyddyn am 2004.

Rhoddodd gyfres deledu arall wedi ei chyflwyno gan Jerry Hunter ar S4C o'r enw *"America Gaeth a'r Cymry"* fwy o sylw i Robert Everett ym 2006. Dyma ddywedodd gwneuthurwyr y gyfres amdano: "Pregethwr o Sir y Fflint oedd y dyn wnaeth fwy na neb i berswadio'i gyd-Gymry yn America o'r angen i ddiddymu caethwasiaeth. Roedd Robert Everett yn un o sylfaenwyr y *New York State Anti-Slavery Society,* ac am flynyddoedd bu'n defnyddio'r wasg Gymraeg yn America i ddadlau'n frwd dros achos y caethweision."

Y llynedd fe gyhoeddodd Jerry Hunter *"I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth Americanaidd"*. Yn ôl gwefan Ysgol y Gymraeg Prifysgol Bangor, mae'n "rhoi ar gof a chadw hanes y gweinidog gyda'r Annibynwyr yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych a ddaeth yn y man yn un o brif ddiddymwyr y fasnach caethwasanaeth yn America yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg."

Nid oedd safbwynt arloesol Robert Everett wrth fodd pawb a chafodd ei gyhuddo o "bregethu politics o'r pulpud" gan rai capelwyr Cymraeg a dioddefodd sawl bygythiad ac ymosodiad oherwydd ei ddaliadau gwleidyddol a moesol. Nid oedd yn ddigwyddiad anghyffredin i aelodau o'r gynulleidfa daflu wyau a llyfrau emynau ato o oriel y capel yn ystod ei bregeth. Ar un achlysur, cafodd ei geffyl ei andwyo'n gorfforol y tu allan i gyfarfod lle 'roedd yn pregethu.

Robert Everett oedd yn gyfrifol am ddechrau'r achos llys enwog ym 1839 yn dilyn gwrthryfel y caethweision ar long yr *Amistad.* Efallai i chi weld ffilm 1997 Steven Spielberg o'r enw *Amistad,* gyda Morgan Freeman ac Anthony Hopkins yn chwarae dau o'r prif gymeriadau. Hyd y gwn i, nid oes cyfeiriad at Robert Everett yn y ffilm! Mae sôn hefyd ei fod wedi helpu caethweision i ddianc o daleithiau de'r UDA i Ganada.

Yn ôl cynhyrchydd a chyfarwyddwr *"America Gaeth a'r Cymry",* Ifor ap Glyn, Cymro talentog iawn o Lundain a drigai yn Ninbych am gyfnod byr, mae Robert Everett yn "un o arwyr angof Cymru". Gobeithio na fydd yn angof o hyn ymlaen.



Parch Graham Floyd a Maer Dinbych, y Cyng. Colin Hughes hefo'r gofeb newydd i Dr. Robert Everett.

Y gofeb i'r Parch. Ddr. Robert Everett ar wal Capel Lôn Swan

